# JONES, LLEWELYN (1894 - 1960), gweinidog (MC), golygydd ac awdur

**Enw:** Llewelyn Jones
**Dyddiad geni:** 1894
**Dyddiad marw:** 1960
**Priod:** Elizabeth Margaret Jones (née Edwards)
**Rhiant:** J.E. Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC), golygydd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn 1894 yn Llandegfan, Môn, yn fab i J. E. Jones, gweinidog (MC) a'i briod o'r lle hwnnw. Addysgwyd ef yn ysgol sir Caergybi, Coleg y Brifysgol, Bangor (lle graddiodd yn y celfyddydau), a choleg Mansfield, Rhydychen (lle cafodd radd B.Litt.). Cafodd radd M.A. Prifysgol Cymru yn 1921 am draethawd ar emynyddiaeth y Diwygiad Methodistaidd gyda sylw arbennig i emynau Williams, Pantycelyn. Ordeiniwyd ef yn 1922, a bu'n gweinidogaethu ym Mae Colwyn (1922-24), Moriah, Utica, T.U.A. (1924-31), a Douglas Road, Lerpwl (1931-51). Penodwyd ef yn ysgrifennydd cyffredinol Cymdeithas Genhadol y MC yn 1951, ac ymwelodd â'r meysydd cenhadol yn India, Pacistan a Llydaw. Priododd, 1926, Elizabeth Margaret Edwards, a ganwyd iddynt ddau o feibion. Bu farw 24 Rhagfyr 1960.

Cyhoeddodd gyfrol ar hanes Moriah yn ystod ei gyfnod yn Utica. Rhoes wasanaeth mawr i fywyd Cymreig glannau Mersi; sefydlodd aelwydydd Urdd Gobaith Cymru yno a golygu *Y Glannau* o 1944 ymlaen. Bu'n aelod hefyd o fwrdd golygyddol *Y Ffordd* (cylchgrawn pobl ieuainc y MC). Cyhoeddodd hefyd *Lawlyfr ar genhadaeth bersonol* yn 1939. Ei gyfraniad pwysicaf yw'r gyfrol *Aleluia gan y Parch. William Williams Pant y Celyn* (1926), sef arg. diplomatig o rannau I-VI o *Aleluia*, 1744-47, Williams, Pantycelyn, gyda rhagarweiniad gwerthfawr. Gan fod copïau o'r *Aleluia* mor anarferol o brin, y mae'r gyfrol hon o werth amhrisiadwy i efrydwyr emynau Pantycelyn.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Who's who in the Free Churches?* (1951), 346

*Y Goleuad*, 8 Chwefror 1961

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1962, 259-60

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 106838184

Wikidata: Q20804738

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu